

# 20 pwynt Allweddol o Wythnos Datgarboneiddio



## #DatgarbonCymru

*"Mae'r wythnos gyfan wedi bod yn anhygoel ac yn addysgiadol, roedd yn teimlo'n real ac yn ddefnyddiol fel tenant oherwydd ei fod yn cynnwys pobl yn gweithio ar y rheng flaen, yn ymwybodol o gartrefi, tenantiaid a chymunedau go iawn, nid ystadegau yn unig."*

### Dydd 1: Cymru Yn Arwain Cymru i Fyd Carbon Isel

- Mae tenantiaid a'r sector tai angen cysondeb wrth lunio polisiau yng Nghymru gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Mae San Steffan wedi bod yn aneglur ynghylch mentrau datgarboneiddio, sy'n tanseilio ymddiriedaeth a hyder ac yn gohirio penderfyniadau buddsoddi yn Lloegr.
- Mae angen i Gymru leihau allyriadau carbon 95% erbyn 2050, ond eto mae gennym rai o'r stoc dai hynaf yn Ewrop.
- Pan fyddwn yn siarad am gael gwared â nwy, mae pryderon tenantiaid yn ymwneud â chost amnewid nwyddau gwyn.

### Dydd 2: Sut allwn ni wneud gwahaniaeth yn ein cymuned

- Mae cymunedau wedi dechrau datblygu mentrau i leihau allyriadau hinsawdd sy'n dod yn fwy cyffredin yng Nghymru.
- Mae Grŵp Tai Arfordirol yn sicrhau bod eu timau rheoli ystadau yn gweithio gyda thenantiaid yn gyson i ddatblygu mentrau cymunedol.
- Mwy o ymgysylltiad cymunedol trwy blannu blodau gwyllt, llai o ladd chwyn, addewidion i 'dorri llai' oherwydd ei effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.
- Datblygu gorsafoedd rhannu compost yn hytrach na chynyddu allyriadau carbon trwy ei symud.
- Cyfyngu chwynladdwr i leihau'r effaith gemegol.

### Dydd 3: Y Cyfan sydd angen ei wybod am ôl-ffitio

- Mae Cymru yn arwain y ffordd gyda'i Rhaglen Ôl-ffitio Optimeiddiedig.
- Mae nifer o beilotiaid yn digwydd ledled Cymru gydag aelodau lleol yn cymryd rhan yn y broses. Mae rhannu dysgu yn un o amcanion allweddol y peilotiaid fel y gall y sector cyfan ddysgu.
- Heb denantiaid, ni fydd ôl-ffitio yn llwyddo. Mae'n rhaid i ni sicrhau cynhesrwydd fforddiadwy, datgarboneiddio a gwerth am arian.
- Bydd angen i dechnegau newydd mewn cartrefi fod â band eang cyfatebol neu welliannau i signal ffôn symudol.

*"Nid yw ôl-ffitio yn ymwneud â thrwsio rhywbeth nad ydym wedi'i wneud, mae'n ymwneud ag uwchraddio eiddo"*

### Dydd 4: Cartrefi'r Dyfodol, Cymunedau'r Dyfodol

- Os ydym yn mynd i wneud i hyn weithio, mae angen lefelau uchel o gyfranogiad tenantiaid arnom.
- Mae arnom angen cydbwysedd teg o fuddion i denantiaid a landlordiaid i ariannu'r gwaith hwn.
- Mae yna ddiddordeb gwirioneddol mewn gwybod tarddiad cyflenwadau lleol – er enghraifft roedd pobl eisiau gwybod o ble y daeth y pren.
- Mae tenantiaid eisiau gweld cyfleoedd i ddysgu sgiliau ymarferol newydd yn ymwneud â datgarboneiddio.
- Mae cefnogaeth wych yn bodoli i'ch helpu chi i greu cymunedau mwy cynaliadwy a chryfach.

### Dydd 5: Llyfrgell Pethau

- Pan eglurwyd beth yw llyfrgell o bethau – roedd pobl eisiau cymryd rhan ar unwaith.
- Gall Skinner Street fod yn ddatblygiad anhygoel yng Nghasnewydd ac mae pobl yn edrych ymlaen i'w ymweld.
- Mae hon yn fenter wych y gellir ei gweithredu yn unrhyw le yng Nghymru.

### Diolch yn fawr

